# Adran 5: Sylwadau ar berfformiad

Adroddiad Blynyddol **2011-2012**



Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

Iechyd ar Waith
CYRRAEDD Y NOD
THE CORPORATE STANDARD
Health at Work

# Cynnwys


Allwedd i'r derminoleg rydyn ni'n ei defnyddio 1

Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen 2

Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 4

Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4 6

Gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched 8

Presenoldeb a gwaharddiadau 9

Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion 11

Pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 12

Y tu hwnt i addysg orfodol: medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes 13

Addysg bellach 14

Dysgu yn y gwaith 15


Yn y rhan yma o'r adroddiad blynyddol, rydyn ni wedi creu cyfres o siartiau i ddangos deilliannau asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol, a chanlyniadau arholiadau allanol. Rydyn ni hefyd yn cynnig sylwadau ar y siartiau.

# Allwedd i'r derminoleg rydyn ni'n ei defnyddio


| | |
|---|---|
| Pynciau craidd | Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth |
| Cyfnod allweddol 1 | Hyd at 2011, roedd plant saith oed yn cael eu hasesu yn erbyn lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac roedd disgwyl iddyn nhw gyflawni lefel 2. |
| Y Cyfnod Sylfaen | Mae hwn wedi disodli cyfnod allweddol 1 ar gyfer disgyblion pump i saith oed. Mae plant yn cael eu hasesu yn saith oed, ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni deilliant 5. |
| Cyfnod allweddol 2 | Ar gyfer disgyblion 11 oed. Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn 11 oed ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni lefel 4. |
| Cyfnod allweddol 3 | Ar gyfer disgyblion 11 i 14 oed. Mae disgyblion yn cael eu hasesu yn 14 oed ac mae disgwyl iddyn nhw gyflawni lefel 5. |
| Cyfnod allweddol 4 | Ar gyfer disgyblion 14 i 16 oed |
| Trothwy lefel 2 | Mae trothwy lefel 2 yn cynnwys cymwysterau TGAU ac amrediad o gymwysterau cyfwerth nad ydyn nhw'n TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 2 sy'n gyfwerth â phum TGAU â graddau A*-C. |
| Trothwy lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg | Mae trothwy lefel 2 yn cynnwys cymwysterau TGAU ac amrediad o gymwysterau cyfwerth nad ydyn nhw'n TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 2 sy'n gyfwerth â phum TGAU â graddau A*-C, ond mae hefyd yn cynnwys graddau TGAU A*-C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. |
| Trothwy lefel 1 | Mae trothwy lefel 1 yn cynnwys cymwysterau TGAU ac amrediad o gymwysterau cyfwerth nad ydyn nhw'n TGAU, gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 1 sy'n gyfwerth â phum TGAU â graddau D-G. |
| Dangosydd pwnc craidd | Mae'r dangosydd pwnc craidd (DPC) yn ymwneud â'r perfformiad a ddisgwylir yn Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd. |
| Cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | Mae'r cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru. |
| Trothwy lefel 3 | Mae trothwy lefel 3 yn cynnwys deilliannau Safon Uwch a'r amrediad llawn o gymwysterau lefel 3 cymeradwy. Mae'r trothwy'n dynodi cyfanswm y cymwysterau ar lefel 3 sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A-E. |
| Cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach | Mae'r cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach yn cynnwys yr holl gymwysterau sydd wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio yng Nghymru. |
| Cyfraddau llwyddo | Mae cyfraddau llwyddo'n dangos nifer y dysgwyr sy'n ennill cymhwyster fel canran o'r rheini a ddechreuodd y cwrs. |

# Perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen[1]

Eleni, am y tro cyntaf, cafodd yr holl blant saith oed yng Nghymru eu hasesu gan eu hathrawon yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn hytrach na lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae disgwyl i ddisgyblion gyflawni deilliant 5 y Cyfnod Sylfaen erbyn yr oedran yma, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cyflawni deilliant 6 neu uwch. Am mai hon oedd blwyddyn gyntaf cynnal asesiadau'r Cyfnod Sylfaen, nid oes unrhyw ganlyniadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol.

Mae Ffigur 1.1 yn dangos y canlyniadau ar gyfer 2012.

**Ffigur 5.1: Y Cyfnod Sylfaen – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant a ddisgwylir (deilliant 5) neu'r deilliant a ddisgwylir ac un yn uwch (deilliant 6), 2012**




DPCh - Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

ILlCS - Iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu - Saesneg

ILlCC - Iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu - Cymraeg

DatMath - Datblygiad mathemategol


DCS - Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

[1] SDR 129/2012 Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, 2012, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/1208141/?skip=1&lang=cy

Yn 2012 fe wnaeth dros naw o bob deg disgybl gyflawni deilliant 5 o leiaf yn y maes dysgu datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (DPChLlADd). Ond dim ond ychydig dros wyth o bob deg disgybl wnaeth gyflawni'r lefel yma ym mhob un o dri maes dysgu DPChLlADd, iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu mewn Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg a datblygiad mathemategol.

Yn iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu ac mewn datblygiad mathemategol, dim ond rhyw chwarter o'r disgyblion wnaeth gyflawni'r deilliannau uwch, sef 6 neu uwch. Serch hynny, yn DPChLlADd, llwyddodd bron i bedwar o bob deg disgybl i gyflawni'r deilliannau uwch.

**Ffigur 5.2: Cyfnod allweddol 1 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel Cwricwlwm Cenedlaethol a ddisgwylir (lefel 2) a'r lefel a ddisgwylir ac un yn uwch (lefel 3), 2011**




# Perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3[2]

Pan fyddan nhw'n cael eu hasesu gan eu hathrawon ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth), mae disgwyl i ddisgyblion gyflawni lefel 4 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 pan fyddan nhw'n 11 oed, ac mae disgwyl i'r disgyblion mwyaf galluog gyflawni lefel 5. Mae disgwyl i ddisgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 pan fyddan nhw'n 14 oed i gyflawni lefel 5 o leiaf, ac mae disgwyl i'r disgyblion mwyaf galluog gyflawni lefel 7 neu uwch.

Yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012, fe wnaeth y canlyniadau wella ym mhob pwnc. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir o leiaf ym mhob un o'r pynciau craidd (y dangosydd pwnc craidd, neu'r DPC) wedi gwella dros ddau a hanner pwynt canran. Dyma'r gwelliant mwyaf sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uchaf wedi gwella ym mhob pwnc hefyd yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012. Yn Saesneg oedd y gwelliant mwyaf. Erbyn hyn mae rhyw un o bob tri disgybl yn cyflawni lefel 6 neu uwch yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Ond dim ond ychydig dros chwarter o'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefel yma yn Gymraeg iaith gyntaf.

Ffigur 5.3: Cyfnod allweddol 2 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir (lefel 4) a'r lefel a ddisgwylir ac un yn uwch (lefel 5), 2009-2012





[2] SDR 129/2012 Deilliannau Diwedd y Cyfnod Sylfaen ac Asesiadau Athrawon y Cwricwlwm Cenedlaethol o'r Pynciau Craidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, 2012, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/1208141/?skip=1&lang=cy

Yng nghyfnod allweddol 3 yn 2012, fe wnaeth y canlyniadau wella o dri phwynt canran neu fwy ym mhob pwnc. Roedd gwelliant o dros 4.5 pwynt canran yn y ganran o ddisgyblion 14 oed a gyflawnodd lefel 5 o leiaf ym mhob un o'r pynciau craidd. Yn y cyfnod allweddol yma eto, dyma'r gwelliant mwyaf sydd wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Fe wnaeth y ganran sy'n cyflawni'r lefelau uchaf wella yng nghyfnod allweddol 3 hefyd. Yn mathemateg eto mae'r canrannau uchaf sy'n cyflawni'r lefelau yma, ac mae rhyw hanner o'r holl ddisgyblion yn cyflawni lefel 6 o leiaf, ac mae un o bob pump n cyflawni lefel 7. Yn Saesneg mae'r canrannau isaf lle mae llai na phedwar o bob deg disgybl yn cyflawni lefel 6 o leiaf, a dim ond un o bob deg sy'n cyflawni lefel 7.

**Ffigur 5.4: Cyfnod allweddol 3 – canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel a ddisgwylir (lefel 5), y lefel a ddisgwylir ac un yn uwch (lefel 6) a'r lefel a ddisgwylir a dau yn uwch (lefel 7), 2009-2012**



# Arholiadau yng nghyfnod allweddol 4[3]

Ffigur 5.5: Canlyniadau'r arholiadau ar gyfer disgyblion 15 oed mewn ysgolion yng Nghymru

| | 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 |
|---|---|---|---|---|
| Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg | 47.2% | 49.4% | 50.1% | 51.1% |
| Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 2 | 60.7% | 63.8% | 67.3% | 72.6% |
| Y gwahaniaeth mewn pwyntiau canran rhwng y ddau ddangosydd yma | 13.5 | 14.4 | 17.2 | 21.5 |

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae disgyblion 15 oed yn sefyll arholiadau allanol. Yn 2012, llwyddodd dros saith o bob deg o'r disgyblion yma i gyrraedd trothwy lefel 2. Ond ni wnaeth y ganran sy'n cyrraedd y trothwy yma ac yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf neu Saesneg a mathemateg wedi gwella mor gyflym â hyn. Rydyn ni wedi dweud mewn blynyddoedd blaenorol ein bod ni'n pryderu am y bwlch sy'n cynyddu rhwng y canlyniadau yma. Yn 2012, fe aeth y bwlch yma'n fwy fyth. Nid yw'r ysgolion yn gwneud digon o gynnydd o ran gofalu bod disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 hefyd yn ennill cymwysterau yn y meysydd allweddol yma, sy'n flaenoriaethau cenedlaethol i Gymru.

Mae'r perfformiad mewn mathemateg yn waeth na pherfformiad yn y pynciau craidd eraill (Saesneg, Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth) ac mae'r bwlch o gymharu â pherfformiad yn Lloegr wedi mynd yn fwy dros y blynyddoedd diwethaf.

[3] SDR 212/2012 Canlyniadau Arholiadau yng Nghymru, 2011/12, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/121206/?skip=1&lang=cy

Ffigur 5.6: Canlyniadau'r arholiadau ar gyfer disgyblion 15 oed yng Nghymru (parhau)

| | 2008-2009 | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 |
|---|---|---|---|---|
| Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 1 | 88.2% | 89.7% | 90.3% | 91.8% |
| Y ganran a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd | 46.0% | 48.0% | 48.7% | 48.9% |
| Cyfartaledd sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio | | 305.1 | 311.6 | 323.5 |
| Y ganran a adawodd addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig[4] | 0.9% | 0.8% | 0.6% | 0.4% |

Amrywiol oedd y gwelliant o ran y dangosyddion eraill yn 2012. Fe wnaeth y sgôr pwyntiau wedi'i gapio a'r ganran sy'n cyrraedd trothwy lefel 1 wella ychydig yn gyflymach na'r flwyddyn flaenorol. Ond ni wnaeth y ganran sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd wella'u sylweddol. Fe wnaeth canran y dysgwyr sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig wella eto yn 2012, ac mae'n llai na hanner un y cant.

[4] SDR 213/2012 Disgyblion sy'n Ymadael ag Addysg Amser Llawn heb Gymhwyster, 2011/12, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/121211/?skip=1&lang=cy

# Gwahaniaethau mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched

Ffigur 5.7: Perfformiad bechgyn a merched ar draws y Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol

| 2012 | Bechgyn | Merched | Gwahaniaeth mewn pwyntiau canran |
|---|---|---|---|
| Y ganran yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen | 75.5% | 85.7% | 10.2 |
| Y ganran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 | 79.4% | 86.0% | 6.6 |
| Y ganran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 3 | 67.2% | 78.2% | 11 |
| Y ganran yn cyflawni dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 4 | 45.1% | 52.8% | 7.8 |

Eleni eto, mae merched yn dal i wneud yn well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol. Yng nghyfnod allweddol 3 y mae'r gwahaniaeth mwyaf ar gyfer y dangosydd pwnc craidd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r gwahaniaethau mwyaf yn y deilliannau gwell ar gyfer merched yn iaith, llythrennedd a medrau cyfathrebu yn Saesneg, ac mewn Cymraeg fel iaith gyntaf. Ond mae bechgyn yn gwneud yn well na merched o ran cyflawni'r deilliannau uwch mewn datblygiad mathemategol.

Fe wnaeth perfformiad bechgyn ar lefel 4 neu uwch wedi gwella'n gyflymach na pherfformiad y merched yng nghyfnod allweddol 2 yn 2012. O ganlyniad, mae'r gwahaniaeth lleiaf ers pum mlynedd wedi bod rhwng canran y bechgyn a'r merched a gyflawnodd y lefel yma ym mhob un o'r tri phwnc craidd. Serch hynny, fe wnaeth y gwahaniaeth mewn perfformiad gynyddu i'r rheini sy'n cyflawni'r lefelau uwch ym mhob pwnc heblaw am fathemateg, lle mae bechgyn yn dal i wneud ychydig yn well na merched.

Yng nghyfnod allweddol 3, fe wnaeth y gwahaniaethau rhwng bechgyn a merched gynyddu eto yn 2012 ym mhob pwnc ar bob lefel, heblaw am Gymraeg fel iaith gyntaf ar lefel 5 neu uwch. Yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf mae'r gwahaniaethau mwyaf o hyd, ac mewn mathemateg mae'r gwahaniaethau lleiaf.

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched wedi cau'n gyson yng nghyfnod allweddol 4. Ond yn 2012, mae'r gwahaniaeth wedi cynyddu ychydig ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion.


# Presenoldeb a gwaharddiadau

Yn yr ysgolion cynradd[5], mae'r cyfraddau presenoldeb ar gyfer Cymru gyfan wedi bod yn sefydlog ar ryw 93% ers 2002-2003. Yn 2011-2012, roedd gwelliant o 0.5 pwynt canran yn y gyfradd bresenoldeb gyffredinol mewn ysgolion cynradd. Gwellodd y cyfraddau presenoldeb ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Yng Ngheredigion oedd y gyfradd bresenoldeb uchaf, ac ym Merthyr Tudful oedd y gyfradd isaf.

Mae gwelliant o 0.7 pwynt canran wedi bod eleni yn y cyfraddau presenoldeb ar gyfer yr holl ysgolion uwchradd[6] yng Nghymru. Mae'r ffigur yma'n dangos bod y gwelliant graddol er 2005-2006 yn parhau. Mae cyfraddau absenoldeb cyffredinol merched yn parhau'n uwch na rhai bechgyn, er bod y bwlch wedi cau rhyw fymryn. Gwellodd y cyfraddau presenoldeb eleni yn 14 o'r awdurdodau lleol, fe wnaethon nhw aros yr un peth â chyfraddau'r llynedd mewn tri awdurdod, ond disgynnodd y cyfraddau mewn pum awdurdod.

Salwch oedd yn cyfrif am dros 50% o'r absenoldebau a gafodd eu cofnodi mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Ffigur 5.8: Presenoldeb yng Nghymru gan ddisgyblion o oed ysgol gorfodol




(a) Mae presenoldeb ysgolion cynradd hefyd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol, lle cafodd data eu darparu.


(b) Mae presenoldeb ysgolion uwchradd hefyd yn cynnwys data ar gyfer ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol, lle cafodd data eu darparu.

[5] SDR 9/2013 Absenoldeb o ysgolion cynradd, 2011-2012, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/docs/statistics/2013/130122-absenteeism-primary-schools-2011-12-en.pdf
[6] SDR 159/2012 Absenoldeb o Ysgolion Uwchradd 2011-2012, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120925/?skip=1&lang=cy

Mae nifer y gwaharddiadau parhaol[7] yng Nghymru'n dal i ostwng bob blwyddyn ers iddi gyrraedd uchafbwynt yn 2004-2005. Bechgyn sy'n gyfrifol am 73% o'r gwaharddiadau parhaol ac mae hynny'n ostyngiad o 10 pwynt canran o gymharu â'r llynedd. Ar 30%, mae mwy o ddisgyblion sydd wedi'u gwahardd yn cael addysg yn eu cartref nag unrhyw ddarpariaeth addysg arall, ond nid yw 15% o'r disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn cael unrhyw ddarpariaeth o gwbl. Ymosod neu drais tuag at ddisgyblion a staff yw'r prif resymau a roddwyd dros wneud gwaharddiadau parhaol. Mae'r rhesymau hyn yn cyfrif am dros 40% o'r gwaharddiadau parhaol.

Mae cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi gostwng i'w lefel isaf am y deg mlynedd diwethaf. Ond mae cyfanswm nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi codi fymryn bach o ffigurau'r llynedd. Herio'r rheolau yw'r rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd dros wneud gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai, neu chwe diwrnod neu fwy.

**Ffigur 5.9: Nifer y gwaharddiadau parhaol o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru, 2008-2011**




[7] SDR 33/2012 Gwaharddiadau o Ysgolion yng Nghymru, 2010-2011, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/schools2012/120228/?skip=1&lang=cy

# Dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion

Yn 2012, roedd canran y dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion a gyflawnodd trothwy lefel 3 yn debyg i'r ganran yn 2011. Roedd gostyngiad yn y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog a gyflawnwyd gan y dysgwyr yma.

Roedd canlyniadau ar gyfer y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog yn is nag y maen nhw wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf.

Ffigur 5.10: Canlyniadau arholiadau ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn ysgolion yng Nghymru

| | 2009-2010 | 2010-2011 | 2011-2012 |
|---|---|---|---|
| Y ganran a gyflawnodd y trothwy lefel 3 | 94.9% | 96.3% | 96.9% |
| Sgôr pwyntiau ehangach | 747.9 | 798.9 | 772.9 |

# Pobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[8]

Roedd cynnydd o un pwynt canran ers y llynedd yng nghanran y bobl ifanc 16 i 18 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Er hynny, mae canran y bobl ifanc 19 i 24 oed sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng gan bron i bwynt canran.

Ffigur 5.11: Canran y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, 2009-2011

| Oed | 2009 | 2010 | 2011 |
|---|---|---|---|
| 16-18 | 12.2% | 11.1% | 12.0% |
| 19-24 | 22.0% | 23.0% | 22.2% |


[8] SB 95/2012 Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) (Blwyddyn hyd at 30 Mehefin 2012), Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/121010/?skip=1&lang=cy

# Y tu hwnt i addysg orfodol: medrau, addysg bellach a dysgu gydol oes[9]

Mae'r lefelau cymwysterau cyffredinol yng Nghymru wedi cynyddu yn 2011, gan barhau'r patrwm cyffredinol o gynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2011, roedd amcangyfrif o 11% o oedolion oed gweithio yng Nghymru wedi adrodd nad oedd ganddyn nhw unrhyw gymwysterau, o gymharu â 12% y flwyddyn flaenorol. Yn 2011, roedd gan 74% o oedolion oed gweithio gymwysterau hyd at lefel 2 o leiaf, o gymharu â 72% yn 2010. Y gyfran â chymwysterau lefel gradd (lefel 4 neu uwch) oedd 32% o gymharu â 31% yn 2010.

Cyfran yr oedolion oed gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau a oedd mewn cyflogaeth yn 2011 oedd 41%, o gymharu â 50% yn 2001. Mae'r newid yn y cyfraddau cyflogaeth rhwng 2001 a 2011 yn llai ar gyfer y rheini â lefelau cymwysterau uwch.

Ffigur 5.12: Lefel cymwysterau uchaf oedolion o oed gweithio, 2002-2011





[9] SB111/2012 Lefel y Cymwysterau Uchaf a Ddelir gan Oedolion o Oed Gweithio yng Nghymru, 2011, Llywodraeth Cymru http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/121121/?skip=1&lang=cy

# Addysg bellach[10]

Gwellodd y cyfraddau cyrhaeddiad fymryn bach o gymharu â 2009-2010 yn yr holl feysydd bron, ac ar bob lefel. Roedd cyfraddau cyrhaeddiad ar gyrsiau hir yn amrywio o 84% mewn busnes, gweinyddi a'r gyfraith i 94% mewn lletygarwch ac arlwyo.

Y gyfradd gyffredinol ar gyfer cyrhaeddiad yn yr holl gyrsiau hir oedd 89%, sef yr un fath â'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 5.13: Cyfraddau cyrhaeddiad ar gyfer cyrsiau hir mewn sefydliadau addysg bellach, 2008-2011




Y gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer yr holl gyrsiau mewn colegau addysg bellach yn 2010-2011 oedd 81%, sef yr un gyfradd â'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfer cyrsiau hir, roedd y cyfraddau uchaf ar lefel 1 a'r cyfraddau isaf ar lefel 3. Ar lefel 2, y gyfradd lwyddo oedd 78%, sef yr un fath â'r flwyddyn flaenorol. Y cyfraddau llwyddo ar gyrsiau hir ar lefelau 1 a 3 oedd 81% a 77% yn y drefn honno, sef cyfraddau tebyg i'r flwyddyn flaenorol – 81% a 76% yn y drefn honno.

[10] SDR56/2012 Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith, 2010/2011, Llywodraeth Cymru http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/120405/?skip=1&lang=cy

# Dysgu yn y gwaith[11]


Yn 2010-2011, roedd y cyfraddau llwyddo mewn gweithgarwch dysgu yn y gwaith ym mhob math o raglen yn debyg iawn yn gyffredinol i gyfraddau'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaeth y cyfraddau llwyddo mewn Prentisiaethau Modern wella o 84% i 85%, ac fe wnaeth y cyfraddau llwyddo mewn Prentisiaeth Modern Sylfaen ostwng o 85% i 84%.

Mae'r cyfraddau llwyddo ar raglenni Adeiladu Sgiliau'n parhau'n ddigon tebyg i gyfraddau'r flwyddyn flaenorol. Ond mae nifer y dysgwyr Adeiladu Sgiliau wedi gostwng ryw 80% o gymharu â'r nifer y flwyddyn flaenorol ers cyflwyno'r rhaglenni newydd Hyfforddeiaethau a Chamau at Waith.

Aeth canran is o'r dysgwyr (16%) i mewn i gyflogaeth newydd neu i fath arall o gyflogaeth, nag yn 2009-2010. Arhosodd y ganran o ddysgwyr a oedd yn chwilio am waith neu a oedd yn ddi-waith ar ryw 28%.

Y cyfraddau llwyddo ar gyfer y fframwaith dysgu yn y gwaith yn 2010-2011 ar gyfer pob un o'r meysydd pwnc oedd 81% mewn Prentisiaethau Modern Sylfaen ac 83% mewn Prentisiaethau Modern. Mae'r ffigurau yma'r un fath ag yn y flwyddyn flaenorol ar gyfer Prentisiaethau Modern Sylfaen, a thri phwynt canran yn uwch ar gyfer Prentisiaethau Modern nag yn y flwyddyn flaenorol.

Ffigur 5.14: Cyfraddau llwyddo gweithgarwch dysgu yn y ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, 2008-2011




[11] SDR56/2012 Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith: 2010/2011. Llywodraeth Cymru http://new.wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2012/120405/?skip=1&lang=cy